# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio The Headlands**

**Cartref Nyrsio The Headlands**
**Tower Road**
**Llangollen**
**LL20 8TE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 23 Ionawr 2023

23/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio The Headlands

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Deevale Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. |

## Crynodeb

Mae Cartref Nyrsio The Headlands yn gofalu am bobl sydd ag anghenion gofal cymhleth. Mae'r bobl yn cael gofal gan staff craidd sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Mae sawl aelod newydd o staff sy'n gweithio i ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth.

Gwnaethom arolygu'r cartref a nodi 11 o feysydd lle mae angen gweithredu â blaenoriaeth ar fyrder er mwyn gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol yn y gwasanaeth ac un maes i'w wella. Mae'r rhain yn ymwneud â darparu gwasanaeth, safonau gofal a chymorth, diogelu, addasrwydd staff, cefnogi a datblygu staff, y safle, rheoli hylendid a heintiau, iechyd a diogelwch, adrodd am ddigwyddiadau hysbysadwy, goruchwylio a rheoli'r gwasanaeth, adolygiadau ansawdd o'r gofal a rheoli meddyginiaethau. Mae'r Awdurdod Lleol wedi dechrau ar ei broses ei hun er mwyn nodi problemau a chefnogi'r gwasanaeth er mwyn gwneud y gwelliannau sy'n ofynnol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol/darparwr a thîm rheoli'r cartref yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol i wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi mynegi ymrwymiad i wella'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn cael lefelau priodol o ofal a chyfleusterau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i AGC bod gwaith gwella eisoes yn mynd rhagddo yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl rywfaint o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau pob dydd. Gwelsom nad oedd y bobl bob amser yn cael dewis o brydau bwyd nac opsiynau amgen i brydau nad oeddent yn eu hoffi. Dywedodd un person wrthym ei fod yn cael brechdanau bob dydd ac nad oedd yn hoffi hynny; gwelsom nad oedd yn cael opsiwn amgen yn unol â'i gais. Dywedodd un person wrthym nad oedd yn cael llawer o ddewis o ran pryd i godi a mynd i'w wely am ei fod yn teimlo bod rhwystr ieithyddol, ac nad oedd y staff yn ei ddeall bob amser, er ei fod yn gofyn yn gwrtais yn gyson. Gwelsom nad oedd cynlluniau personol pobl bob amser yn nodi iaith gyntaf pobl na'u dewisiadau ieithyddol, diwylliannol a chrefyddol. Dywedodd un person wrthym y byddai'n hoffi'r cyfle i siarad Cymraeg a bod yn rhan o ddiwylliant Cymru ac arferion y capel nad oeddent yn cael eu cynnig yn y cartref. Gwelsom nad oedd unrhyw ddeunydd darllen Cymraeg, a phrin oedd yr arwyddion dwyieithog yn y cartref. Mae hyn yn mynd yn groes i'r rheoliadau ac nid yw'n cyd-fynd â Datganiad o Ddiben y gwasanaeth ei hun sy'n nodi'r gwasanaethau a gynigir i'r bobl yn y cartref.

Nid oedd y bobl yn cael gweithgareddau ac ysgogiadau yn rheolaidd. Nid oedd unrhyw weithgareddau wedi'u cynllunio wedi'u hysgrifennu ar y bwrdd gweithgareddau yn y cartref yn ystod ein hymweliadau arolygu. Gwelsom y gofal a oedd yn cael ei roi mewn un lolfa yn y cartref. Nid oedd gweithgareddau yn cael eu cynnig i'r bobl ac nid oedd technegau dargyfeirio yn cael eu defnyddio i dawelu meddyliau'r bobl a oedd yn ymddangos yn orbryderus. Dywedodd un teulu wrth AGC eu bod yn pryderu mai yn ei ystafell yn bennaf roedd eu perthynas yn cael gofal ac nad oedd yn cael cynnig gweithgareddau, difyrrwch nac ysgogiad. Dywedodd y teulu, "*there has to be more to life than merely existing.*" Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ac rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli i raddau. Gall pobl ddewis cael rhywfaint o'u dodrefn a'u heiddo eu hunain yn eu hystafell i wneud iddynt deimlo'n gysurus. Gwelsom nad oedd ystafelloedd y bobl bob amser yn cael eu cynnal i safon dda, ac roedd dodrefn wedi torri yn ystafelloedd rhai pobl ynghyd â gwaith paent yr oedd angen rhoi sylw iddo. Roedd ystafelloedd y bobl yn gynnes yn ystod y ddau ymweliad arolygu. Nid yw'r ffordd y mae ystafelloedd y bobl ac ardaloedd eraill o'r cartref wedi'u haddurno yn addas i bobl â dementia. Nid archwiliwyd y cyfle i ddefnyddio lliw a gwead er mwyn helpu pobl i adnabod eu hystafell ac ardaloedd eraill o'r cartref.

Ni allai'r staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliadau arolygu esbonio'r gweithdrefnau diogelu yn llawn. Nid oedd y staff yn gwybod am yr ap diogelu na sut i gysylltu â'r awdurdodau diogelu. Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r hyfforddiant diogelu diweddaraf. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Gofal a Chymorth

Ni chaiff y bobl ofal mewn ffordd ragweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser. Gwelsom y gofal a oedd yn cael ei roi mewn un lolfa yn y cartref, lle'r oedd sawl aelod o staff ar ddyletswydd. Gwelsom nad oedd y staff yn rhyngweithio â'r bobl heblaw pan roedd angen cyflawni tasg gyda nhw. Roedd y bobl yn dangos arwyddion o orbryder a gofid, ond nid aeth y staff ati i roi tawelwch meddwl na dargyfeiriad. Ni chafodd anghenion hylendid ac ymataliaeth y bobl eu nodi mewn modd amserol er mwyn rhoi gofal ag urddas iddynt. Ni cheisiwyd unrhyw ymyriad ar gyfer un person a oedd yn ansicr ar ei draed er mwyn lliniaru ei risg o gwympo. Gwelwyd gweithdrefn symud a chodi a chario anniogel a allai achosi anaf i'r person a'r aelod o'r staff. Nid yw'r dyraniad staff yn gytbwys bob amser i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion y bobl mewn modd amserol. Canfu AGC, ar sawl achlysur, nad oedd unrhyw staff ar gael ar loriau uchaf y cartref i fonitro anghenion y bobl ac ymateb iddynt. Mae hyn yn arbennig o bryderus gan ein bod wedi cael gwybod mai dim ond tri pherson a all ddefnyddio cloch alw. Er bod cynlluniau personol y bobl yn cynnwys manylion am eu diagnosis meddygol a'r modd y mae'n effeithio ar eu hymddygiad, nid ydynt yn cynnwys llawer o fanylion o ddydd i ddydd am anghenion a dewisiadau'r bobl. Gwelsom gynllun a oedd yn cynnwys cyfarwyddiadau croes ynghylch anghenion un person o ran symud a chodi a chario. Nid yw hyn yn sicrhau y rhoddir cyfarwyddiadau digonol i staff newydd a staff asiantaeth am anghenion gofal y bobl. Mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi cael ei gyflwyno gan fod hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Er eu bod yn cydymffurfio ar y cyfan, gwelsom fod angen mynd i'r afael â rhai materion mewn perthynas â rhoi a storio meddyginiaeth. Gwelsom nad oedd troliau meddyginiaeth yn cael eu diogelu i'r wal wrth gael eu storio. Gwelsom feddyginiaeth a ddylai fod wedi'i chadw yn yr oergell wedi'i gadael allan ar y troli meddyginiaethau. Gwelsom garthyddion a oedd wedi'u rhagnodi ar gyfer pobl a enwyd wedi'u gadael allan at ddefnydd cyffredinol “yn ôl y gofyn”. Nid oedd yr oergell meddyginiaethau yn lân, ac nid oedd y tymheredd yn cael ei brofi yn unol â'r canllawiau fferylliaeth. Clywsom fod y dull y cynhaliwyd asesiad risg arno ar gyfer rhoi meddyginiaethau pe byddai’r lifft yn torri yn wahanol i'r arfer a ddefnyddir gan staff asiantaeth mewn gwirionedd. Er na nodwyd unrhyw effaith uniongyrchol, mae AGC yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i wella'r arferion hyn.

Gwelsom fod arferion sy'n gysylltiedig â rheoli heintiau yn wael. Ni cheir tystiolaeth o arferion hylendid dwylo bob amser gan nad oedd sebon na thywelion llaw papur yn y toiledau cymunedol na'r toiledau i staff. Gwelwyd aelod o'r staff yn gwisgo masg wyneb yn anghywir pan gafwyd achosion o COVID-19. Hysbyswyd y rheolwr am hyn a ddiystyrodd y risg gan dybio bod yr aelod o'r staff yn ei wisgo'n gywir pan fyddai'n rhoi gofal uniongyrchol. Ni chaiff tymheredd ymwelwyr ei brofi fel mater o drefn pan fyddant yn cyrraedd y cartref yn ystod achosion o COVID-19. Cafodd AGC ei hysbysu bod timau monitro o'r Awdurdod Iechyd hefyd wedi gweld staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) yn anghywir, ac

nad oedd y mesurau ynysu ar gyfer COVID-19 yn cael eu trefnu'n ddigonol yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r canllawiau ar gyfer rheoli heintiau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid oedd y polisi diogelu a oedd yn cael ei ddefnyddio yn ystod yr arolygiad yn unol â chanllawiau presennol Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Ni chafodd hyn ei nodi gan y rheolwr na'r Unigolyn Cyfrifol. Anfonwyd polisi diwygiedig atom ar ôl yr arolygiad. Nid yw'r rheolwr yn ymwybodol o ganllawiau ymarfer mewn perthynas â diogelu, nid yw'n cadw cofnodion perthnasol ac nid yw'n dilyn polisi a gweithdrefn y sefydliad ei hun. Mae'r cofnodion a gedwir o ddigwyddiadau diogelu yn anghyflawn a gwelsom nad yw achosion o ddigwyddiadau yn y cartref yn cael eu hadrodd i dîm diogelu'r awdurdod lleol nac i AGC. Mae'r staff a oedd y rhan o'r digwyddiadau diogelu yn parhau i weithio yn y cartref yn groes i bolisi a gweithdrefnau'r sefydliad. Nid oedd y staff y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n rhoi canllawiau i'r staff ar sut i nodi a rhoi gwybod am faterion diogelu. Nid yw prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys mesurau diogelu, ni chaiff digwyddiadau o'r fath eu gwerthuso ac nid ystyrir unrhyw wersi y gall fod angen eu dysgu er mwyn lleihau'r risg y bydd yr un peth yn digwydd eto. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod angen diweddaru hyfforddiant diogelu pedwar aelod o staff, ac nad unrhyw gyfrif am hyfforddiant pedwar aelod arall o staff. Nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi nodi hyn drwy'r prosesau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Ni cheir gwiriadau iechyd a diogelwch cadarn yn y cartref. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Tynnodd ymarfer gwagio'r adeilad os bydd tân sylw at faterion y mae angen gweithredu arnynt, ond nid oedd y rheolwr wedi nodi eu bod yn peri pryder. Ni ellid diffodd y larwm tân gan fod yr allwedd gan aelod o'r staff a oedd wedi gadael y safle, ac ni lwyddwyd i ddod o hyd i'r allwedd arall ar adeg y digwyddiad. Ni welsom dystiolaeth fod y staff yn profi tymheredd dŵr baddon a chawod er mwyn atal pobl rhag sgaldio. Ni welsom dystiolaeth fod profion legionella yn cael eu cynnal. Gwelsom beryglon baglu oherwydd annibendod ar y llawr yn yr ystafell golchi dillad ac ystafell y boeler. Ni cheir sinc golchi dwylo ar wahân yn yr ystafell golchi dillad, yn unol â'r rheoliadau, i sicrhau hylendid dwylo da ac i atal croeshalogi. Gwelsom eli wedi'i ragnodi yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin mewn ystafell ymolchi gymunedol sy'n peri risg o groeshalogi gan na chaiff ei ddefnyddio fel y rhagnodwyd gan feddyg. Gwelsom fod eitemau a chyfarpar wedi cael eu gosod yn agos at y toiled mewn rhai ardaloedd sy'n peri risg o halogi drwy dasgu a risg o ran rheoli heintiau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a diogelwch y bobl, ac felly mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Gwelsom nad oedd yr amgylchedd mor lân â'r disgwyl mewn ardaloedd penodol. Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid yr amgylchedd o 5, sef y sgôr uchaf bosibl. Mae'r carpedi ar y grisiau i'r ddau lawr ac ar bob landin yn fudr, wedi'u staenio ac wedi colli eu lliw mewn mannau. Mae'r cadeiriau yn y lolfa wedi rhwygo, ac roedd pobl wedi gwlychu a throchi arnynt a oedd wedi treiddio i'r clustogau. Mae'r llenni yn y lolfeydd ac mewn rhai ystafelloedd gwely wedi'u staenio ac maent yn hongian oddi ar y rheiliau. Mae angen glanhau llawr yr ystafell meddyginiaethau ynghyd ag arwynebau'r cownteri a'r oergell meddyginiaethau. Mae'r sinc yn yr ystafell golchi dillad wedi'i staenio â phaent a glanedydd. Gwelsom fod crafiadau ar y dodrefn yn y lolfa. Mae'r dodrefn yn ystafelloedd rhai o'r bobl wedi torri. Mae'r gwaith paent mewn ardaloedd prysur yn fudr ac yn plicio. Roedd y staff glanhau ar eu gwyliau ac ni phenodwyd neb arall yn eu lle. Gwnaethom ofyn am gael gweld gwiriadau ac amserlenni glanhau ond ni chawsom y rhain. Mae hyn yn peri risg i iechyd a diogelwch y bobl, ac felly mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Ni chaiff y gwasanaethau eu darparu yn unol â'r sicrwydd a roddir yn y datganiad o ddiben, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i hyfforddiant a chymorth i staff ar ansawdd gofal, gweithgareddau, mesurau diogelu, recriwtio, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn goruchwylio nac yn rheoli'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Nid yw'r prosesau sicrhau ansawdd yn effeithiol o ran monitro, adolygu na gwella ansawdd y gwasanaeth. Ni cheisir safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau, y staff na'r gweithwyr proffesiynol. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd wedi gwneud unrhyw waith i geisio safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth na'u teuluoedd ers 2021. Nid yw adroddiadau Rheoliad 73 yn dangos tystiolaeth bod trawstoriad o'r rhanddeiliaid wedi cael cyfle i fynegi eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Nid yw adroddiadau Rheoliad 73 yn dangos tystiolaeth bod y cofnodion a'r archwiliadau'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd yn ymwybodol o'r hyn y mae angen ei adrodd i AGC mewn perthynas â digwyddiadau diogelu. Gwelsom achosion o ddigwyddiadau nad oedd AGC wedi cael gwybod amdanynt. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau diogelu ac achosion lle roedd y lifft wedi torri. Nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi nodi hyn drwy'r prosesau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni allem weld tystiolaeth yng nghofnodion y staff na'r cofnod hyfforddiant a ddarparwyd bod aelodau newydd o staff yn cwblhau cyfnod sefydlu wedi'i strwythuro yn unol â fframwaith Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cofnodion yn dangos nad yw'r staff, gan gynnwys y rheolwr, wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol na hyfforddiant arbenigol. Nid yw'r nyrsys, gan gynnwys y rheolwr, wedi cael hyfforddiant clinigol i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Dangosodd gwiriadau o gofnodion goruchwylio a gwybodaeth a ddarparwyd nad yw'r staff, gan gynnwys y rheolwr, yn cael goruchwyliaeth ffurfiol yn rheolaidd a chadarnhaodd y rheolwr nad oedd yr un aelod o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol. Fodd bynnag, ar ail ddiwrnod yr arolygiad, cafodd AGC gopi o un cofnod goruchwylio a oedd yn ymwneud â'r rheolwr.  Ni chafodd hyn ei nodi drwy brosesau sicrhau ansawdd gan yr Unigolyn Cyfrifol nac yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni chaiff staff eu recriwtio yn unol â'r gofynion rheoliadol. Nid yw ffeiliau'r staff a wiriwyd bob amser yn cynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol ac nid yw'r geirdaon a gofnodwyd wedi cael eu dilysu. Nid yw'r cofnodion yn cynnwys disgrifiad swydd, nac unrhyw dystiolaeth y rhoddir cod ymddygiad Gofal Cymdeithasol Cymru i'r staff. Nid yw bylchau mewn cyflogaeth wedi'u nodi ac mae un aelod o'r staff wedi dychwelyd i weithio yn y cartref heb ddilyn y broses recriwtio gywir. Nid oedd yr Unigolyn Cyfrifol wedi nodi hyn drwy'r prosesau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid yw'r darparwr wedi dangos ei fod yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth. | Newydd |
| 21 | Prin yw'r mesurau i oruchwylio safonau gofal yn y gwasanaeth. | Newydd |
| 26 | Ni welsom dystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod gan y staff a'r rheolwr ddigon o wybodaeth i ddiogelu'r bobl mewn modd cadarn. | Newydd |
| 35 | Ni chaiff gwiriadau cyn cyflogaeth cynhwysfawr eu cwblhau cyn i aelodau newydd o staff gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn cael eu diweddaru ynghylch y wybodaeth a'r mesurau goruchwylio sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl. Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod aelodau newydd o staff yn cael cyfnod sefydlu cadarn yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. | Newydd |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu gofal diogel, llawn urddas a pharch i'r bobl. | Newydd |
| 56 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwaith o reoli hylendid a heintiau yn y cartref yn ddigonol i fodloni gofynion y rheoliadau. | Newydd |
| 57 | Gwnaethom nodi materion iechyd a diogelwch yn ystod ein harolygiad na chawsant eu nodi gan y darparwr. | Newydd |
| 60 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy. | Newydd |
| 66 | Nid yw'r darparwr wedi goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y darperir gofal o ansawdd. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod proses effeithiol ar waith i fesur ansawdd y gofal. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Gwelsom faterion ynghylch y broses o roi a storio meddyginiaethau yn ystod yr arolygiad. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/06/2023